Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd

## Adroddiad Monitro Brexit

19 Rhagfyr 2018



Y Cynulliad a BREXIT

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6307**
E-bost: **GarethDavid.Thomas@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:

## Adroddiad Monitro Brexit

19 Rhagfyr 2018

**Awduron:**
Joseph Champion, Gethin Davies, Peter Hill a Gareth Thomas

Y Cynulliad a BREXIT

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 1**

Crynodeb o'r datblygiad ... 1

**2. Y datblygiadau diweddaraf ... 6**

Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael ... 6

Deddfwriaeth ... 13

**3. Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ... 16**

Y sefyllfa ar hyn o bryd: Y bleidlais i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ... 16

Effaith bosibl y Cytundeb Ymadael ar feysydd polisi penodol yng Nghymru ... 16

Y berthynas yn y dyfodol: Beth yw goblygiadau'r datganiad gwleidyddol ar Brexit i Gymru? ... 17

Asesiadau economaidd o Brexit ... 19

**4. Ymateb Llywodraeth Cymru ... 21**

**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Negodiadau Erthygl 50 ynghylch ymadawiad y DU â'r UE ers 12 Tachwedd 2018. Mae'r papur hwn yn rhoi:

- Crynodeb o'r datblygiadau diweddaraf yn y negodiadau a deddfwriaeth gysylltiedig y DU;
- Dadansoddiad o'r prif faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol (y Pwyllgor); a
- Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiad

- Ar 14 Tachwedd cafodd testun cytunedig **y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE** ei gyhoeddi ochr yn ochr ag **amlinelliad o'r Datganiad Gwleidyddol drafft**.
- Ar 15 Tachwedd gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad yn Senedd y DU** gan amlinellu prif elfennau'r dogfennau. Yr un diwrnod, cafwyd ymddiswyddiadau o'r Cabinet gan Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac Esther McVey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau.
- Hefyd ar 15 Tachwedd, galwodd **Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd** am uwchgynhadledd brys y Cyngor Ewropeaidd, am 9.30am ar 25 Tachwedd.
- Ar 16 Tachwedd, anfonodd **Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban** lythyr ar y cyd i Brif Weinidog y DU, gan feirniadu'r diffyg trafod â'r sefydliadau datganoledig cyn i Gabinet y DU gytuno ar y Cytundeb Ymadael. O ganlyniad, **trefnwyd cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar gyfer 19 Tachwedd**.
- Ar 20 Tachwedd, gwnaeth **Prif Weinidog Cymru ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar y Cytundeb Ymadael drafft, gan nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y cytundeb ac amlinellu'r camau nesaf sydd angen eu cymryd.
- Ar 22 Tachwedd, yn dilyn cyhoeddi testun cytunedig **y Datganiad Gwleidyddol yn ei gyfanrwydd**, gwnaeth **Theresa May ddatganiad ar y datganiad gwleidyddol yn Senedd y DU**.
- Ar 25 Tachwedd, **cymeradwyodd Cyngor yr UE** y Cytundeb Ymadael ynghyd â'r Datganiad Gwleidyddol. Gwnaeth **Donald Tusk** a **Theresa May** ddatganiadau yr un diwrnod.

- Ar 26 Tachwedd, cafwyd tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, **Mark Drakeford AC** ynghylch y negodiadau i Bwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad.
- Ar 27 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **hasesiad o'r cytundeb ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol** mewn datganiad ysgrifenedig gan Brif Weinidog Cymru.
- Ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **dadansoddiad economaidd hirdymor ar gyfer ymadael â'r UE**. Amcangyfrifwyd effaith nifer o wahanol senarios Brexit ar Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU o'i gymharu ag aelodaeth yr UE dros gyfnod o 15 mlynedd. Yr un diwrnod, cyhoeddodd Banc Lloegr **ddadansoddiad o effaith gwahanol senarios Brexit ar sefydlogrwydd ariannol a chyllidol y DU.**
- Ar 29 Tachwedd, lluniodd llywodraethau'r DU, Sbaen a Gibraltar, **bedwar Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ynghylch Gibraltar.
- Ar 29 Tachwedd, clywodd **Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin** dystiolaeth lafar **gan Brif Weinidog y DU ar Brexit.**
- Ar 29 Tachwedd, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad ei asesiad o **effaith y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol ar Gymru.**
- Ar 3 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU grynodeb o'r cyngor cyfreithiol a gafodd ar y Cytundeb Ymadael: **'EU Exit Legal position on the Withdrawal Agreement'.** Ddeuddydd yn ddiweddarach, cyhoeddodd y **cyngor yn ei gyfanrwydd, yn dilyn pleidlais yr Aelodau Seneddol bod Llywodraeth y DU yn dwyn dirmyg ar Senedd y DU drwy beidio â chyhoeddi'r cyngor llawn**.
- Ar **4 Rhagfyr, cynhaliodd y Cynulliad ddadl ar** y Cytundeb Ymadael drafft a'r Datganiad Gwleidyddol. Gwrthododd y Cynulliad y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol, a galwodd i'r DU aros yn y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau ac i'r DU ofyn am estyniad i'r broses Erthygl 50.
- Yr un diwrnod, dechreuwyd ar ddadl pum diwrnod o hyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar **Adran 13(1)(b)** o **Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018**, sef y broses o gymeradwyo'r cytundeb rhwng Prif Weinidog y DU a Cyngor yr UE.
- Hefyd ar 4 Rhagfyr, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad ei adroddiad ynghylch **Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru.**



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

- Y diwrnod hwnnw, cyhoeddodd Campos Sanchez-Bordona, sef Eiriolwr Cyffredinol Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, **ei farn** a oedd yn nodi y credai y dylai gwledydd allu gwneud penderfyniad unochrog i ganslo ei hysbysiad Erthygl 50.
- Yn ogystal, ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **dadansoddiad economaidd o gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.**
- Pleidleisiodd **Senedd yr Alban** ar 5 Rhagfyr i wrthod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol.
- Ar 6 Rhagfyr, bu Michel Barnier, Prif Negodwr yr UE, **yn siarad gerbron Pwyllgor y Rhanbarthau** ynghylch y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol, ac ynghylch cydweithio â dinasoedd a rhanbarthau mewn perthynas â Brexit.
- Cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd ei **adroddiad ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol** ar 9 Rhagfyr. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn unfrydol wrth ddod i'r casgliad bod y Cytundeb yn methu â chynnig eglurder a sicrwydd digonol ar gyfer dyfodol y DU.
- Ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn gohirio'r 'bleidlais ystyrlon' i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Gwnaeth Prif Weinidog y DU ddatganiad yn Senedd y DU ar 10 Rhagfyr ynghylch y gohiriad, ac meddai mai'r ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon oedd y maen tramgwydd, ac mai hwnnw oedd wir yn peri pryder ymhlith nifer o'r Aelodau Seneddol. Gan hynny, dywedodd y byddai'r Cytundeb yn cael ei wrthod o gryn fwyafrif pe cynhelir pleidlais ar 11 Rhagfyr fel y disgwyliwyd.
- Hefyd ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (â phob barnwr yn eistedd) **ei farn** bod gan y DU rwydd hynt i ddirymu ei hysbysiad i ymadael â'r UE, gan wneud hynny'n unochrog.
- Ar 11 Rhagfyr, wrth ymateb i **Gwestiwn Brys,** dywedodd Robin Walker AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Adael yr UE, y bydd Llywodraeth y DU yn sicrhau y cynhelir 'pleidlais ystyrlon' yn Senedd y DU cyn 21 Ionawr 2019.
- Hefyd ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd Pwyllgor y Trysorlys yn Nhŷ'r Cyffredin ei **adroddiad ar oblygiadau economaidd y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol.**
- Yr un diwrnod, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin **ddadl frys** ar y ffordd y mae Llywodraeth y DU wedi rhoi ystyriaeth i'r bleidlais ystyrlon.

- Ar 13 Rhagfyr, cyhoeddodd Mark Drakeford **aelodau ei Gabinet,** gan gynnwys Jeremy Miles fel Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog dros Brexit ac Eluned Morgan fel Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg.
- Ar 13 Rhagfyr, cyflwynodd y Goruchaf Lys **ei ddyfarniad** wedi i Lywodraeth y DU gyfeirio achos ato mewn perthynas â'r Bil Parhad a gyflwynwyd gan Lywodraeth yr Alban. Canfu y byddai adran 17 o'r Bil y tu hwnt i gymhwysedd Senedd yr Alban i ddiwygio Deddf yr Alban. At hynny, byddai sawl rhan arall o'r Bil yn newid Deddf Ymadael â'r UE 2018, sydd wedi'i gwarchod rhag cael ei diwygio. O'r herwydd, mae nifer o adrannau eraill bellach y tu hwnt i gymhwysedd Senedd yr Alban.
- Ar 13 a 14 Rhagfyr, aeth Prif Weinidog y DU **i gyfarfod y Cyngor Ewropeaidd** ym Mrwsel. Cyn y cyfarfod, soniodd y Prif Weinidog ei bod yn bwriadu datgan pa sicrwydd cyfreithiol a gwleidyddol y byddai'n awyddus i'w cael. **Dywedodd Donald Tusk,** Llywydd y Cyngor Ewropeaidd: "We will not renegotiate the deal, including the backstop, but we are ready to discuss how to facilitate UK ratification. As time is running out, we will also discuss our preparedness for a no-deal scenario."
- Ar 17 Rhagfyr, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad i Dŷ'r Cyffredin** ynghylch cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd. Dywedodd y byddai'r bleidlais ystyrlon ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol yn cael ei chynnal yn yr wythnos sy'n cychwyn 14 Ionawr 2019, ar ôl y ddadl a fyddai'n ailddechrau yn yr wythnos sy'n cychwyn 7 Ionawr. Soniodd y Prif Weinidog hefyd ei bod wedi codi'r pryderon ynghylch yr ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd.
- Yn dilyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd, **dywedodd Donald Tusk** nad yw'n agored i ail-drafod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Soniodd mai bwriad yr UE yw mai trefniant dros dro fyddai'r ateb wrth gefn os daw i rym, a bod yr UE yn gobeithio cyrraedd trefniadau ar gyfer perthynas yn y dyfodol sy'n golygu na fydd ei angen o gwbl.
- Ar 18 Rhagfyr, cytunodd Llywodraeth y DU i roi ei chynlluniau ar waith yn llawn pe bai senario 'dim bargen'. Cymeradwyodd ddyraniadau gwerth £2 biliwn ar gyfer adrannau Llywodraeth y DU i baratoi ar gyfer senario 'dim bargen'. Ymhlith y meysydd blaenoriaeth roedd ffiniau, diogelwch a masnach. Cytunodd hefyd i roi gwybodaeth i fusnesau ac unigolion ynghylch y paratoadau ar gyfer senario 'dim bargen'.
- Ar 18 Rhagfyr, cynhaliodd Tŷ'r Cyffredin ddadl brys ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol.





- Ar 19 Rhagfyr, **cyhoeddodd** Prif Weinidog Cymru, Mark Drakeford AC, y byddai **Llywodraeth Cymru yn dwysáu ei waith paratoi ar gyfer Brexit 'dim bargen'.** Cyfarfu hefyd â Phrif Weinidog y DU ar 19 Rhagfyr, ac aeth i gyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE).
- Ar 19 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei Phapur Gwyn ar fewnfudo.

# 2. Y datblygiadau diweddaraf

## Negodiadau ar y Cytundeb Ymadael

Y prif ddatblygiad yw'r cytuno rhwng y DU a'r UE ar **y Cytundeb Ymadael drafft**, â Chabinet Llywodraeth y DU yn cymeradwyo'r cytundeb ar y cyd ar 14 Tachwedd. Ochr yn ochr â'r Cytundeb Ymadael, cyhoeddwyd **amlinelliad o'r Datganiad Gwleidyddol** ar y fframwaith ar gyfer perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol. **Yr un diwrnod, cyhoeddwyd** dogfen esboniadol 50 tudalen yn trafod y Cytundeb Ymadael (sydd bron yn 600 tudalen) ynghyd â nodyn esboniadol technegol ar Brotocol Gogledd Iwerddon.

Ar 15 Tachwedd, gwnaeth Prif Weinidog y DU **ddatganiad yn Senedd y DU** yn amlinellu prif elfennau'r ddogfennau, a gwnaeth **ddatganiad pellach mewn cynhadledd i'r wasg** yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Yr un diwrnod, cafwyd ymddiswyddiadau o'r Cabinet gan Dominic Raab, yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac Esther McVey, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau. Yn eu lle, daeth **Stephen Barclay** ac **Amber Rudd.**

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **sleidiau yn egluro'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol** ar 19 Tachwedd. Yna, ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd y Llywodraeth **gasgliad o ddogfennau manylach** â'r bwriad o gynorthwyo pobl i ddeall ac asesu'r cytundeb rhwng y DU a'r UE. Roedd y dogfennau hyn yn cynnwys dadansoddiad economaidd Llywodraeth y DU o effaith Brexit yn y tymor hir, a drafodir ymhellach yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

Gan y cytunwyd ar y Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol amlinellol, ar 15 Tachwedd, galwodd **Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd** am uwchgynhadledd brys y Cyngor Ewropeaidd, am 9.30 ar fore 25 Tachwedd. Nod yr uwchgynhadledd oedd rhoi sêl bendith ar y cytundeb ar lefel wleidyddol.

Yna, ar 21 Tachwedd, cyfarfu Prif Weinidog y DU â Llywydd Comisiwn yr UE, Jean-Claude Juncker, i drafod y Datganiad Gwleidyddol amlinellol yn fanylach. Yn syth ar ôl y cyfarfod hwnnw, cafwyd **adroddiadau bod cyfarfod arall** wedi ei drefnu rhwng y ddau ar 24 Tachwedd i drafod Brexit ymhellach.

Ar 22 Tachwedd, yn dilyn cyhoeddi testun cytunedig y **Datganiad Gwleidyddol llawn**, gwnaeth Theresa May ddatganiad yn Senedd y DU. Dywedodd:





> ...the text we have now agreed would create a new Free Trade Area with the EU, with no tariffs, fees, charges or quantitative restrictions.
>
> This would be the first such agreement between the EU and any advanced economy in the world, which will be good for jobs....
>
> Crucially, the text we have agreed also has an explicit reference to development of an independent trade policy by the UK beyond this partnership with the EU.

Cyhoeddodd Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin **ei grynodeb o'r datganiad** ar 30 Tachwedd. Mae dadansoddiad Gwasanaeth Ymchwil y Cynulliad o **effaith y datganiad gwleidyddol ar Gymru** i'w weld yn adran 3 o'r adroddiad hwn.

Yn dilyn cyhoeddiad y Datganiad Gwleidyddol cytunedig ar 22 Tachwedd, â bwriad i'w gymeradwyo ochr yn ochr â'r Cytundeb Ymadael yn Uwchgynhadledd y Cyngor Ewropeaidd, bu trafod ynghylch diben y cyfarfod dilynol hwn. Yna, cafwyd adroddiadau bod Sbaen yn pryderu ynghylch diffyg cyfeiriad penodol at Gibraltar.

Ar 24 Tachwedd, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **lythyr a anfonodd at Gyngor yr UE** ynghylch cwmpas tiriogaethol cytundebau'r DU â'r UE yn y dyfodol, ynghyd â datganiad gan Lywodraeth Gibraltar. Yn y llythyr hwnnw, dywedodd Llywodraeth y DU ei bod yn barod i ddefnyddio'r un dull gweithredu mewn perthynas yn y dyfodol ag a ddefnyddiwyd yn y Cytundeb Ymadael mewn cysylltiad â Gibraltar, hynny yw, drwy negodi a chyrraedd cytundeb yn uniongyrchol â Sbaen.

Yn ei **datganiad yn dilyn Uwchgynhadledd y Cyngor Ewropeaidd** ar 25 Tachwedd, dywedodd Prif Weinidog y DU:

> We have ensured that Gibraltar is covered by the Withdrawal Agreement and by the Implementation Period.
>
> Let no-one be in any doubt: for the future partnership the UK will be negotiating for the whole UK family, including Gibraltar.
>
> I am proud that Gibraltar is British and its constitutional status will not change.

Ar 29 Tachwedd 2018, cyhoeddodd llywodraethau'r DU, Sbaen a Gibraltar **bedwar Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** ynghylch Gibraltar. Mae'r rhain yn ategu'r Protocol ar Gibraltar yn y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE. Mae'r Memoranda hyn yn ymwneud â:

- hawliau dinasyddion;
- cydweithredu ar faterion amgylcheddol;
- cydweithredu mewn materion sy'n ymwneud â'r heddlu a thollau; a
- tybaco a chynhyrchion eraill.

Ochr yn ochr â'r Memoranda, cyhoeddwyd Concordat gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Gibraltar ar weithredu Protocol Gibraltar yn y Cytundeb Ymadael.

## Uwchgynhadledd y Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd

Gan y cytunwyd ar y Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol amlinellol, ar 15 Tachwedd, galwodd **Donald Tusk, Llywydd y Cyngor Ewropeaidd am uwchgynhadledd arbennig y Cyngor Ewropeaidd**, am 9.30 ar fore 25 Tachwedd. Nod yr uwchgynhadledd oedd rhoi sêl bendith ar y cytundeb ar lefel wleidyddol.

**Cymeradwyodd Cyngor yr UE** y Cytundeb Ymadael ynghyd â'r Datganiad Gwleidyddol, ac felly gwahoddodd Senedd yr Undeb Ewropeaidd i gymryd y camau angenrheidiol i sicrhau y gall y Cytundeb ddod i rym ar 30 Mawrth 2019, er mwyn caniatáu ymadawiad trefnus.

Yn ei sylwadau yn dilyn yr Uwchgynhadledd, dywedodd y Llywydd Donald Tusk:

> Ahead of us is the difficult process of ratification as well as further negotiations. But regardless of how it will all end, one thing is certain: we will remain friends until the end of days, and one day longer.

Cafwyd datganiad gan Brif Weinidog y DU **ar ôl yr Uwchgynhadledd** hefyd. Dywedodd:

> In any negotiation, you do not get everything you want. You need to identify what your vital interests are and stick to them, but be prepared to compromise in other areas in order to achieve a result. I think the British people understand that. When they look at this deal they will see it is a good one for our country and that it is in the national interest for everyone to get behind it.

**Yn Senedd yr UE ar 29 Tachwedd**, rhoddodd Michel Barnier, Prif Negodwr Comisiwn yr UE yn negodiadau Brexit, ddiweddariad. Yn ei ddatganiad, dywedodd:

> The time for negotiating the Withdrawal Agreement and the Political Declaration is over. It is now time for ratification by the British Parliament, and by the European Parliament and Council. Given the difficult circumstances of this negotiation, and given the extreme complexity of all the subjects related to the UK's withdrawal, the deal that is on the table – the draft Withdrawal Agreement and the Political Declaration – this deal is the only and the best deal possible.





## Craffu ar y cytundeb yn Senedd y DU

Ar 29 Tachwedd clywodd **Pwyllgor Cyswllt Tŷ'r Cyffredin** dystiolaeth lafar **gan Brif Weinidog y DU ar Brexit**. Roedd y cwestiynau yn ymdrin â chanlyniadau posibl y 'bleidlais ystyrlon', ac yn fwy cyffredinol:

- Economi, busnes a masnach;
- Diogelwch, amddiffyn a ffiniau;
- Materion trawsffiniol: Trafnidiaeth, gwyddoniaeth ac iechyd; a
- Y cyfansoddiad.

Yn ei thystiolaeth, meddai Prif Weinidog y DU:

> If Parliament votes down the deal on 11 December, there is a process—as you know—in legislation for the length of time given for the Government to come back and make a statement about the next steps. But the timetable is such that some people would need to take some practical steps in relation to no deal if Parliament were to vote down the deal on 11 December.

Ar **4 Rhagfyr, cynhaliodd y Cynulliad ddadl** ar y Cytundeb Ymadael drafft a'r Datganiad Gwleidyddol. Roedd hyn yn unol â **bwriad Prif Weinidog Cymru** y byddai'r Cynulliad yn cynnal pleidlais ar y Cytundeb a'r Datganiad Gwleidyddol cyn i'r 'bleidlais ystyrlon' gael ei chynnal yn Nhŷ'r Cyffredin.

Fel rhan o'r **ddadl, cymeradwyodd y Cynulliad welliant 2** i'r cynnig gwreiddiol. O ganlyniad, mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn gwrthod y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol am y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a gytunwyd gan y Cyngor Ewropeaidd a Llywodraeth y DU.
- Yn credu nad yw'r berthynas yn y dyfodol fel y'i rhagwelir gan y datganiad gwleidyddol yn mynd mor bell â'r model ar gyfer perthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol a nodwyd yn 'Diogelu Dyfodol Cymru', sy'n darparu gwarantau cadarn mewn perthynas â hawliau gweithwyr, hawliau dynol, deddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dinasyddion.
- Yn nodi bod dadansoddiad economaidd hirdymor Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd economi'r DU yn gwaethygu 3.9 y cant dros 15 mlynedd o dan y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol presennol.
- Yn galw ar Lywodraeth y DU i geisio aelodaeth y DU o'r farchnad sengl Ewropeaidd a'r undeb tollau.

- Yn galw am estyniad i'r broses ar gyfer erthygl 50.

Yr un diwrnod, dechreuwyd ar ddadl pum diwrnod o hyd a drefnwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar **Adran 13(1)(b) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018,** sef y broses o gymeradwyo'r cytundeb rhwng Prif Weinidog y DU a Chyngor yr UE yn yr Uwchgynhadledd ar 25 Tachwedd. Fodd bynnag, ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn gohirio'r 'bleidlais ystyrlon' i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Gwnaeth y Prif Weinidog **ddatganiad i'r Senedd** ar 10 Rhagfyr ynghylch y penderfyniad i ohirio, ac meddai:

> It is clear that while there is broad support for many of the key aspects of the deal, on one issue – the Northern Ireland backstop – there remains widespread and deep concern.
>
> As a result, if we went ahead and held the vote tomorrow the deal would be rejected by a significant margin.
>
> We will therefore defer the vote scheduled for tomorrow and not proceed to divide the House at this time.

Dywedodd yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Adael yr UE, Robin Walker AS, **wrth Aelodau Seneddol ar 11 Rhagfyr** y bydd Llywodraeth y DU, yn unol â bwriad Deddf Ymadael â'r UE 2018, yn sicrhau y cynigir cytundeb i Dŷ'r Cyffredin erbyn 21 Ionawr 2019. Yn ogystal, dywedodd, os na cheir cytundeb erbyn 21 Ionawr 2019, yna bydd Llywodraeth y DU yn gwneud datganiad i Dŷ'r Cyffredin.

O ganlyniad, ar 17 Rhagfyr, **dywedodd Prif Weinidog y DU wrth Dŷ'r Cyffredin** y byddai'r bleidlais ystyrlon ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol yn cael ei chynnal yn yr wythnos sy'n cychwyn 14 Ionawr 2019, ar ôl y ddadl a fyddai'n ailddechrau yn yr wythnos sy'n cychwyn 7 Ionawr.

Yn ystod diwrnod cyntaf y ddadl ar y Cytundeb Ymadael yn Nhŷ'r Cyffredin, trechwyd Llywodraeth y DU wrth i Aelodau Seneddol bleidleisio o blaid gwelliant Dominic Grieve i'r cynnig i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Mae'r gwelliant yn golygu y bydd Aelodau Seneddol yn gallu diwygio unrhyw gynnig y bydd Llywodraeth y DU yn ei gyflwyno gerbron Tŷ'r Cyffredin yn nodi ei gynllun gweithredu os caiff y cytundeb ei wrthod, a chadarnhaodd Robin Walker AS ar 11 Rhagfyr y bydd modd diwygio gwelliant o'r fath os caiff y cytundeb ei wrthod pan ailddechreuir ar y ddadl.





Pleidleisiodd **Senedd yr Alban** ar 5 Rhagfyr i wrthod y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol. Pasiodd gynnig gan Lywodraeth yr Alban, wedi'i gefnogi gan Blaid Lafur yr Alban, Plaid Werdd yr Alban, a Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban. Roedd y cynnig hwn yn datgan y byddai senario 'dim bargen' a'r canlyniadau a ddêl yn sgil y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol wrth iddynt nodi'r fframwaith ar gyfer perthynas y DU a'r UE yn y dyfodol yn andwyol i'r Alban a gwledydd a rhanbarthau eraill y DU yn gyffredinol. Felly, argymhellodd iddynt gael eu gwrthod ac y dylid cyflwyno dewis arall, gwell.

O ran gwaith craffu Pwyllgorau mewn perthynas â Brexit, cyhoeddodd Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar gyfer Gadael yr Undeb Ewropeaidd ei **adroddiad ar y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol** ar 9 Rhagfyr. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn unfrydol wrth ddod i'r casgliad bod y cytundeb yn methu â chynnig eglurder a sicrwydd digonol ar gyfer dyfodol y DU. Roedd yr adroddiad yn nodi nad yw'r Datganiad Gwleidyddol yn cynnwys manylion na sylwedd, a bod pobl a busnesau yn parhau i wynebu ansicrwydd.

Ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd Pwyllgor y Trysorlys yn Nhŷ'r Cyffredin ei **adroddiad ar oblygiadau economaidd y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol**. Roedd yr adroddiad yn dangos na ellir defnyddio'r senarios y cynhaliodd Llywodraeth y DU ddadansoddiad economaidd ar eu cyfer i lywio pleidlais ystyrlon. Mynegwyd yn yr adroddiad siom y Pwyllgor nad oes dim dadansoddiad o effeithiau tymor byr y fargen. Yn olaf, daethpwyd i'r casgliad y dylai Llywodraeth y DU fod wedi gwneud gwaith modelu ar effaith yr ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon.

Cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad ynghylch **Effaith Brexit ar Addysg Uwch ac Addysg Bellach yng Nghymru** ar 4 Rhagfyr. Gwnaeth yr adroddiad wyth argymhelliad, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> ...hyd yn oed gyda Chytundeb Ymadael cymharol ffafriol, y byddai angen i lawer o feysydd allweddol gweithgarwch prifysgolion a cholegau wneud newidiadau. Roedd hyn yn arbennig o wir ar gyfer y sector addysg uwch, lle mae gweithgarwch sylweddol yn gysylltiedig â symudiad rhydd staff a myfyrwyr y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd.
>
> Er gwaethaf gwarantau cyllido'r Trysorlys, byddai sefyllfa heb gytundeb yn amharu'n sylweddol ar y ddau sector - yn arbennig felly i'r sector addysg uwch gyda'i ystod eang o gydweithrediadau rhyngwladol a chyfranogiad mewn rhwydweithiau ymchwil...[ac]
>
> Roedd tystiolaeth a gafwyd yn nodi mai ychydig iawn o gyfleoedd oedd yn codi o Brexit yn y byrdymor, a chyfeiriwyd at rai ohonynt yng nghyd-destun gwneud y gorau o Brexit.

## Brexit a'r gyfraith

Ar 3 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ddogfen: **EU Exit Legal position on the Withdrawal Agreement**. Ar 4 Rhagfyr, cafwyd datganiad llafar yn Nhŷ'r Cyffredin gan Dwrnai Cyffredinol y DU, Geoffrey Cox QC, ar y **ddofgen gyfreithiol** a'r cyngor cyfreithiol sy'n sail i'r ddogfen honno. Yn dilyn dadl a phleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **gyngor cyfreithiol llawn y Twrnai Cyffredinol** ar 5 Rhagfyr, ochr yn ochr â **datganiad ysgrifenedig gan y Twrnai Cyffredinol.**

Y diwrnod hwnnw, cyhoeddodd Campos Sanchez-Bordona, sef Eiriolwr Cyffredinol Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, **ei farn** gan gynnig y dylai'r Llys Cyfiawnder ddatgan bod Erthygl 50 o Gytuniad yr Undeb Ewropeaidd yn caniatáu penderfyniad unochrog i ddiddymu'r hysbysiad i ymadael â'r UE.

> ...proposes that the Court of Justice should declare that Article 50 TEU allows the unilateral revocation of the notification of the intention to withdraw from the EU.

Ar 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (â phob barnwr yn eistedd) **ei farn** bod gan y DU rwydd hynt i ddirymu ei hysbysiad i ymadael â'r UE, gan wneud hynny'n unochrog.  Roedd y dyfarniad **yn datgan**:



**Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd:** Adroddiad Monitro Brexit

> Article 50 TEU must be interpreted as meaning that, where a Member State has notified the European Council, in accordance with that article, of its intention to withdraw from the European Union, that article allows that Member State — for as long as a withdrawal agreement concluded between that Member State and the European Union has not entered into force or, if no such agreement has been concluded, for as long as the two-year period laid down in Article 50(3) TEU, possibly extended in accordance with that paragraph, has not expired — to revoke that notification unilaterally, in an unequivocal and unconditional manner, by a notice addressed to the European Council in writing, after the Member State concerned has taken the revocation decision in accordance with its constitutional requirements. Diben dirymu'r hysbysiad yn y modd hwnnw fyddai cadarnhau bod gan aelod-wladwriaeth aelodaeth o'r UE yn unol â thelerau heb eu newid i statws yr aelod-wladwriaeth, a darparu bod y dirymiad yn rhoi diwedd ar y broses ymadael.

## Deddfwriaeth

O ran **y Bil Amaethyddiaeth** daeth y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin i ben ar 20 Tachwedd. Hyd yma, ni chyhoeddwyd y dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad. Nod y Bil yw darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin a sefydlu systemau newydd ar gyfer cymorth amaethyddol a rheoli tir ar draws y DU. Mae Atodlen 3 o'r Bil yn gymwys i Gymru yn benodol a chynhwyswyd y pwerau hyn ar gais Llywodraeth Cymru. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru barhau i wneud taliadau i ffermwyr a rheolwyr tir ar ôl Brexit, gwneud newidiadau i'r cynlluniau presennol a gweithredu cynlluniau newydd. Bwriedir i'r pwerau hyn bara am gyfnod penodol nes i Lywodraeth Cymru gyflwyno ei Bil Amaethyddiaeth ei hun, a ddisgwylir cyn diwedd y Cynulliad hwn. Mae Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Cynulliad wedi clywed tystiolaeth ynghylch y Bil gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig. Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil erbyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud hynn, sef 4 Ionawr 2019.

Pasiodd y **Bil Pysgodfeydd** gyfnod yr Ail Ddarlleniad yn ddiwahân yn Nhŷ'r Cyffredin ar 21 Tachwedd, ac ar hyn o bryd mae'n mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor, a disgwylir i'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus adrodd yn ôl i Dŷ'r Cyffredin erbyn 19 Rhagfyr. Prif nodau'r Bil yw rheoli mynediad at ddyfroedd y DU; sicrhau y gall y DU bennu ei chwota pysgota ei hun; gwarchod yr amgylchedd morol; a nodi sut y bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn gweithio gyda'i gilydd o ran rheoli pysgodfeydd. Fel gyda'r Bil Amaethyddiaeth, mae'r Bil hwn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â Chymru ar gais Llywodraeth Cymru. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil gerbron y Cynulliad ar 15 Tachwedd. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet ei bod yn credu ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn mewn Bil gan y DU i sicrhau bod dull cyson ar draws y DU wrth greu'r fframwaith pysgodfeydd. Er hynny, mae gan Lywodraeth Cymru ddau bryder ynglŷn â'r Bil, ac mae'n gweithio i ddatrys y rhain â Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, fel yn achos y Bil Amaethyddiaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd yn cyflwyno Bil Pysgodfeydd Cymru yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ill tri yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a bydd yn adrodd i'r Cynulliad erbyn 12 Chwefror 2019.

Daeth **Cyfnod Pwyllgor y Bil Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol)** i ben ddydd Iau 29 Tachwedd, wrth iddo gyflwyno adroddiad heb welliannau. Hyd yma, ni chyhoeddwyd y dyddiad ar gyfer y Cyfnod Adrodd a'r Trydydd Darlleniad. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol ariannu a threfnu gofal iechyd y tu allan i'r DU a rhoi cytundebau gofal iechyd cyfatebol ar waith rhwng y DU a gwledydd eraill. Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil ar 15 Tachwedd. Yn y Memorandwm, dywed Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, ei bod yn briodol ymdrin â'r pwnc hwn mewn Bil gan y DU oherwydd brys y ddeddfwriaeth ac ei bod yn ffafriol i gael dull cyson ar draws y DU. Bydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn trafod y Memorandwm a bydd yn adrodd i'r Cynulliad erbyn 22 Ionawr 2019.

**Bil Gwasanaethau Ariannol (Gweithredu Deddfwriaeth)** yw'r Bil diweddaraf y mae San Steffan wedi'i gyflwyno. Ei ddiben yw rhoi pŵer i'r Llywodraeth weithredu a gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth gwasanaethau ariannol am ddwy flynedd ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Ni fyddai ond ei angen mewn senario 'dim bargen'. Cynhaliwyd yr Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Rhagfyr ac nid yw'r Cyfnod Pwyllgor wedi'i drefnu eto. Nid yw'r meysydd y mae'r Bil yn eu cwmpasu wedi'u datganoli i Gymru, ac felly ni fydd angen proses cydsynio deddfwriaethol.





O ran **is-ddeddfwriaeth**, mae Gweinidogion Llywodraeth y DU wedi **dweud eu bod** yn disgwyl gosod tua 700 o Offerynnau Statudol i baratoi'r llyfr statud ar gyfer y diwrnod gadael. Hyd yn hyn, mae 242 o Offerynnau Statudol sy'n gysylltiedig â Brexit wedi'u gosod ers i Ddeddf yr UE (Ymadael) gael Cydsyniad Brenhinol ar 26 Mehefin 2018, ac mae 53 Offeryn Statudol wedi cwblhau eu hynt drwy'r Senedd. Mae Rheol Sefydlog 30C yn y Cynulliad yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru, pan fydd rheoliadau a wneir gan Weinidogion y DU o dan Ddeddf yr UE (Ymadael), osod datganiad ysgrifenedig yn hysbysu'r Cynulliad o'r rheoliadau dan sylw. Pan fo'r rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol, rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd osod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gosod naw Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a 57 datganiad ysgrifenedig sy'n ymwneud â rheoliadau sydd i'w gwneud gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig.

# 3. Materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

## Y sefyllfa ar hyn o bryd: Y bleidlais i gymeradwyo'r Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol

Daw'r dadansoddiad canlynol o **erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad**, a gyhoeddwyd ar 11 Rhagfyr.

Ar ôl tri diwrnod, ar ddydd Llun 10 Rhagfyr, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU ei bwriad i ohirio'r bleidlais hollbwysig. Meddai ei bod yn credu y byddai'r cytundeb yn cael ei wrthod o gryn fwyafrif, gan fod gormod o Aelodau Seneddol yn gwrthwynebu'r cynigion ar gyfer yr ateb wrth gefn i osgoi ffin galed ar ynys Iwerddon pe byddai senario 'dim bargen'. Ni soniodd Theresa May pryd fydd y bleidlais yn cael ei hail-drefnu.

O droi at ddiwrnod cyntaf y ddadl ar 4 Rhagfyr, cafwyd datblygiad sylweddol wrth i Aelodau Seneddol bleidleisio o blaid gwelliant i'r cynnig busnes a osodwyd gan Dominic Grieve. O dan adran 13 o Ddeddf yr UE (Ymadael), os gwrthodir y cynnig i gymeradwyo'r cytundeb, bydd gan Lywodraeth y DU 21 diwrnod i wneud datganiad ynghylch y camau nesaf, ac yna wneud cynnig i Dŷ'r Cyffredin i 'nodi' y datganiad hwnnw. Mae hyn yn golygu na cheir cyflwyno gwelliannau i'r cynnig hwn. Fodd bynnag, mae gwelliant Dominic Grieve yn golygu nad yw'r rheol yn gymwys yn y senario hon, sy'n golygu y gallai Senedd y DU wneud gwelliannau i gynnig sy'n nodi cynllun gweithredu Llywodraeth y DU os gwrthodir y cytundeb.

## Effaith bosibl y Cytundeb Ymadael ar feysydd polisi penodol yng Nghymru

Daw'r dadansoddiad canlynol o **erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad**, a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd.

Cyhoeddodd Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol y Cynulliad ei asesiad o **effaith y cytundeb ymadael a'r datganiad gwleidyddol ar Gymru ar 29 Tachwedd**. Roedd y dadansoddiad hwn yn trafod y pwyntiau allweddol a ganlyn yn y Cytundeb Ymadael:





- **Mewn perthynas ag economi Cymru,** bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o'r farchnad sengl a'r undeb tollau yn ystod y cyfnod pontio, ond nid yw'r trefniadau o ran ardal masnach rydd ar gyfer nwyddau a chydweithrediad o ran masnachu gwasanaethau y tu hwnt i hyn wedi'u pennu o hyd ar ôl yr 'ateb wrth gefn' posibl. Mae'r mwyafrif helaeth o'r **dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor** yn datgan bod sicrhau mynediad dirwystr at y farchnad sengl heb dariffau na rhwystrau di-dariff yn hanfodol bwysig i economi Cymru.
- **Mewn perthynas â phorthladdoedd Cymru**, bydd diddordeb yn y trefniadau a nodir yn yr 'ateb wrth gefn' ar gyfer Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Os daw hyn i rym, bydd tiriogaeth dollau yn y DU a'r UE, ond bydd Gogledd Iwerddon hefyd yn parhau i alinio â'r rhan fwyaf o reolau'r UE mewn perthynas â nwyddau ac anifeiliaid. O ganlyniad, ni fydd unrhyw wiriadau na rheolaethau newydd ar nwyddau sy'n croesi'r ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon, ond bydd gwiriadau ar nwyddau sy'n dod o weddill y DU i Ogledd Iwerddon.
- **Bydd cynhyrchion bwyd a diod o Gymru** sy'n cael eu gwarchod gan ddangosyddion daearyddol, fel cig oen o Gymru, yn cael yr un warchodaeth yn awtomatig yn y DU ac yn cadw'r warchodaeth bresennol yn yr UE fel y nodir yn Erthygl 54 o'r cytundeb ymadael.
- Hefyd, mae'r Pwyllgor **wedi clywed pryderon am effaith Brexit ar waith cynllunio gweithlu GIG Cymru**. Mae cynigion y Cytundeb Ymadael yn nodi y bydd holl ddinasyddion yr UE sy'n byw yn gyfreithlon yn y DU ar ddiwedd y cyfnod pontio yn gallu aros yn y DU, a bydd yr un hawliau yn fras ag sydd ganddynt ar hyn o bryd yn cael eu gwarantu, gan gynnwys yr hawl i weithio neu fod yn hunangyflogedig.
- O ran **meddyginiaethau'n parhau i fod ar gael ar gyfer GIG Cymru**, bydd meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol sy'n cael eu rhoi ar y farchnad cyn 31 Rhagfyr 2020 yn parhau i gylchredeg yn rhydd rhwng y DU a'r UE ac ni fydd angen addasiadau i gynhyrchion nac ail-labelu. Bydd unrhyw weithgarwch cydymffurfio sydd eisoes yn digwydd ar y nwyddau hyn, fel asesiadau cydymffurfio, yn parhau i gael eu cydnabod yn y DU a'r UE fel ei gilydd.

## Y berthynas yn y dyfodol: Beth yw goblygiadau'r datganiad gwleidyddol ar Brexit i Gymru?

Daw'r dadansoddiad canlynol o **erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad**, a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd.

O ran yr economi, mae'r datganiad yn nodi y bydd trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i greu ardal fasnach rydd ar gyfer nwyddau, sy'n cyfuno cydweithrediad dwfn o ran rheoleiddio a thollau, ac yr ategir hwn gan ddarpariaethau i sicrhau bod tegwch cyfartal i bawb o ran cystadleuaeth agored a theg. Y nod yw na fydd unrhyw dariffau, ffioedd, taliadau na chyfyngiadau meintiol ar draws pob sector nwyddau. Er y bydd yr UE a'r DU yn gallu gosod eu rheolau eu hunain o ran safonau ac yn y blaen, byddant yn rhoi darpariaethau ar waith i osgoi rhwystrau dianghenraid i fasnachu nwyddau. O ran gwasanaethau, fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn anelu at yr un lefel o alinio. Yn hytrach, mae'n anelu at lefel o ryddid o ran masnach sydd ymhell y tu hwnt i ymrwymiadau Sefydliad Masnach y Byd yr UE a'r DU.

Mae adran allweddol arall o'r datganiad ar gyfer Cymru yn ymwneud â physgodfeydd. Dywed y datganiad na fydd y DU yn rhan o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin bellach, ac y bydd yn wladwriaeth arfordirol annibynnol sy'n gallu gosod ei rheolau ei hun. Fodd bynnag, mae'r datganiad yn dweud y bydd y DU a'r UE yn ceisio cydweithredu'n ddwyochrog ac yn rhyngwladol er mwyn sicrhau y bydd pysgota'n gynaliadwy. Mae'r DU a'r UE yn bwriadu defnyddio eu 'hymdrechion gorau' i lunio cytundeb pysgodfeydd newydd a fyddai'n cwmpasu mynediad at ddyfroedd a chwotâu mewn pryd i bennu cyfleoedd pysgota am y flwyddyn gyntaf ar ôl y cyfnod pontio.

O ran yr amgylchedd, mae'r datganiad yn cynnwys meysydd allweddol ar gyfer cydweithrediad amgylcheddol ym meysydd newid hinsawdd, datblygu cynaliadwy a llygredd trawsffiniol. Yn benodol o ran newid yn yr hinsawdd, dywed y dylai'r berthynas yn y dyfodol ailddatgan yr ymrwymiadau y mae'r UE a'r DU wedi'u gwneud i addewidion newid yn yr hinsawdd rhyngwladol, fel y cytundeb Paris. Fel y nodwyd uchod, fodd bynnag, nid yw'r datganiad yn destun cyfreithiol sy'n rhwymo.

O ran cydweithredu ym maes iechyd yn y dyfodol, dywed y datganiad y dylai'r DU a'r UE gydweithredu yn yr un ffordd ag y mae'r UE yn ei threfniadau presennol gyda gwledydd eraill. Byddai hyn yn golygu cydweithredu mewn fforymau rhyngwladol ar atal, canfod, paratoi ac ymateb i fygythiadau sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg i ddiogelwch iechyd.





O ran hawliau i ddinasyddion, dywed y cytundeb gwleidyddol mai rhagofyniad hanfodol i unrhyw berthynas yn y dyfodol yw ei fod wedi'i ategu gan ymrwymiadau hirsefydlog i hawliau sylfaenol unigolion, gan gynnwys cadw at y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'i system o orfodi – h.y. parchu barn y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd. O ran manylion y tu hwnt i'r cytundeb gwleidyddol, mae'n anelu at deithio heb fisa rhwng y DU a'r UE ar gyfer teithiau byr (fel gwyliau). Mae hefyd yn rhagweld 'trefniadau' sydd heb eu diffinio ar gyfer pobl sy'n symud rhwng y DU a'r UE am gyfnod oherwydd eu swyddi neu fusnes.

Er mwyn sicrhau gweithrediad y berthynas yn y dyfodol, gwneir trefniadau sefydliadol ar gyfer ei rheoli, ei goruchwylio, ei gweithredu a'i datblygu dros amser, yn ogystal ag ar gyfer datrys anghydfodau a gorfodi.

## Asesiadau economaidd o Brexit

Mae'r crynodeb a ganlyn o ddadansoddiad economaidd Llywodraeth y DU wedi ei gymryd o **erthygl gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad** a gyhoeddwyd ar 3 Rhagfyr.

Ar 28 Tachwedd, cyn y 'bleidlais ystyrlon' ar 11 Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **dadansoddiad economaidd hirdymor ar gyfer ymadael â'r UE.** Amcangyfrifwyd effaith nifer o wahanol senarios Brexit ar Gynnyrch Domestig Gros (GDP) y DU o'i gymharu ag aelodaeth yr UE dros gyfnod o 15 mlynedd.

Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU hefyd yn ystyried effaith gwahanol senarios Brexit ar wledydd datganoledig y DU a rhanbarthau Lloegr. Fodd bynnag, dim ond ystyried newidiadau o ganlyniad i bolisi masnach y mae hwn, ac nid yw'n ystyried effeithiau economaidd posibl newidiadau i drefniadau ymfudo na hyblygrwydd rheoleiddiol.

Fel y gwelir yn adran flaenorol y blog, mae dull modelu Llywodraeth y DU yn awgrymu, os bydd llai o weithwyr o Ardal Economaidd Ewrop (AEE) yn ymfudo i'r DU, bydd y cyfanswm CDG a CDG y pen yn is na phe bai dim newidiadau i drefniadau ymfudo ym mhob un o'r senarios Brexit a nodwyd.

Mae Llywodraeth y DU yn datgan, mewn sefyllfa 'dim bargen', byddai gostyngiad sylweddol i Gymru o ran ei Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA), gan y byddai'r sefyllfa hon yn effeithio'n arbennig ar gyfran weithgynhyrchu fwy Cymru. Fodd bynnag, mewn sefyllfa lle mae polisi Papur Gwyn Llywodraeth y DU yn adlewyrchu trefniadau masnachu'r DU, dywed y byddai hyn yn arwain at GYC cymharol is ar gyfer Cymru na phe bai yn aelod o'r UE, gan fod gan Gymru arbenigedd cymharol yn y sector ynni. Mae Llywodraeth y DU yn disgwyl i hwn berfformio'n dda o dan senario'r Papur Gwyn, a byddai'n effeithio llai ar Gymru na rhannau eraill o'r DU.

Roedd amcan cychwynnol Llywodraeth y DU o effaith economaidd senarios Brexit ar y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, a nodir yn y **Dadansoddiad Ymadael â'r UE: Papur Briffio ar Draws Whitehall fis Ionawr 2018, hefyd yn nodi amcangyfrifon o effaith gwahanol sefyllfaoedd ar Werth Ychwanegol Gros (GYC). Roedd y dadansoddiad hwn yn ystyried ffactorau fel mudo a rheoleiddio, ond nid oedd yn ystyried effeithiau trefniadau tollau neu'r gadwyn gyflenwi ar ranbarthau penodol. Hefyd nid oedd yn dadansoddi effaith polisi Papur Gwyn Llywodraeth y DU.**

Ar 28 Tachwedd, cyhoeddodd Banc Lloegr **ddadansoddiad o effaith gwahanol senarios Brexit ar sefydlogrwydd ariannol** a chyllidol y DU. Nodwyd yn yr adroddiad:

> Brexit is unique. Large negative supply shocks are relatively rare, and there is no precedent of an advanced economy withdrawing from a trade agreement as deep and complex as the European Union.
>
> As the United Kingdom's (UK) trading relationship with the EU changes, the reduction in openness will act to reduce the UK economy's productive capacity and in most scenarios its rate of growth in the short term.
>
> Leaving the EU abruptly, without a withdrawal agreement and implementation period, would amplify these effects...
>
> However, monetary and financial stability are necessary but not sufficient conditions for long term prosperity. The economic consequences of Brexit over the longer-term will depend on the nature of the UK's future trading relationships, other government policies, and ultimately the ingenuity and enterprise of the British people.





# 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 15 Tachwedd, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Carwyn Jones AC, **ddatganiad ysgrifenedig** yn dilyn cyfarfod y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd ar Ynys Manaw yr wythnos flaenorol. Roedd y sylwadau a wnaeth yn cynnwys:

- tynnu sylw at effaith yr ansicrwydd ynghylch Brexit ar fuddsoddi a swyddi yng Nghymru, a rhannu ei bryderon am y farn gynyddol ymysg busnesau y byddai'n rhaid trin y DU fel marchnad ar wahân i'r UE;
- pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod dull Llywodraeth y DU o edrych ar fudo yn y dyfodol yn diogelu'r cyflenwad llafur ar gyfer swyddi proffesiynol a sgiliau is; a
- dweud eto fyth y byddai'n gwbl annerbyniol methu sicrhau cytundeb â'r UE, a phwysleisio ei bod yn bwysig i Lywodraeth y DU gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig wrth negodi cytundebau rhyngwladol sydd â goblygiadau ar gyfer maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **asesiad o'r Cytundeb Ymadael a'r datganiad gwleidyddol** mewn datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar y pryd ar 27 Tachwedd. Roedd yr asesiad yn nodi barn Llywodraeth Cymru, er iddi gydnabod pwysigrwydd sylfeini'r Cytundeb Ymadael, bod rhai elfennau ohoni yn broblemus. Yn ei farn ef, mae sefyllfa Llywodraeth y DU yn achosi rhai o'r anawsterau hyn, a sut mae hyn wedi llunio'r datganiad gwleidyddol.

Mae'r pryderon penodol sydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch y cytundeb ymadael i'w gweld yn yr asesiad, a hefyd i'w gweld yn natganiad **y Prif Weinidog ar y pryd** i'r Cynulliad ar 20 Tachwedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Diffyg sefydlogrwydd y trefniadau yn y cytundeb ymadael** – dywedodd y Prif Weinidog "nad yw'r cytundeb yn mynd at wraidd y mater", ac mae cwestiynau ynghylch a fydd y DU yn yr un sefyllfa ag y mae nawr yn 2020 heb gytundeb parhaol ynghylch ei pherthynas â'r UE.

- **Cyfyngiadau o ran ymestyn y cyfnod pontio** – mae Llywodraeth Cymru yn nodi, er bod y cytundeb ymadael yn cynnwys mecanwaith i ymestyn y cyfnod pontio, na ddylai hyn fod yn berthnasol dim ond i amgylchiadau lle mae Llywodraeth y DU yn dymuno osgoi cychwyn yr 'ateb wrth gefn' sydd ym mhrotocol Iwerddon-Gogledd Iwerddon. Mae'n credu ei bod yn debygol y bydd angen amser ychwanegol ar gyfer trafodaethau mewn nifer o feysydd i sicrhau bod y cytundeb cywir yn cael ei lunio y tu hwnt i faterion sy'n effeithio ar fasnach, ac na ddylid cyfyngu ar yr amser sydd ar gael i ymestyn y cyfnod pontio.
- **Mesurau gwarchod yr amgylchedd a llafur** – mae'r cytundeb ymadael yn ymrwymo, yn ystod cyfnod unrhyw ateb wrth gefn, na fydd y DU a'r UE yn gostwng lefelau mesurau gwarchod yr amgylchedd a llafur fel y maent yn sefyll ar ddiwedd y cyfnod pontio. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi dewis amgen, lle byddai'r DU yn parhau i alinio â safonau yr amgylchedd a llafur yr UE yn y dyfodol, er mwyn parhau â'r hyn y mae'n ei weld fel mesurau gwarchod lefel uchel ar gyfer yr amgylchedd a hawliau gweithwyr – mesurau sydd wedi bod ar waith yn ystod aelodaeth y DU o'r UE.

Mae asesiad Llywodraeth Cymru yn dod i'r casgliad a ganlyn:

> Dylai Llywodraeth y DU groesawu'r berthynas â'r UE yn y dyfodol a amlinellir yn Diogelu Dyfodol Cymru. Drwy fabwysiadu'r agwedd hon, prin y byddai angen newid y Cytundeb Ymadael, nad yw'r UE yn awyddus iawn i'w aildrafod.

Yn dilyn llythyr ar y cyd gan **Brif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog yr Alban** at Brif Weinidog y DU, a oedd yn beirniadu'r diffyg trafod â'r sefydliadau datganoledig cyn i Gabinet y DU gytuno ar y Cytundeb Ymadael ar 16 Tachwedd, trefnwyd cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Gweinidogion (Negodiadau'r UE) ar gyfer 19 Tachwedd.** Cyn y cyfarfod hwnnw, lle trafodwyd y Cytundeb Ymadael a'r Datganiad Gwleidyddol, adroddwyd bod yr Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid ar y pryd, **Mark Drakeford wedi dweud:**

> [The Withdrawal Agreement] does not go as far as it needs to go to secure our agreement, and the very flimsy future relationship document is certainly not in a position that we could agree to support it.

Ar 20 Tachwedd, **gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar y Cytundeb Ymadael drafft. Dywedodd:





> Methiant gwirioneddol y cytundeb presennol yw'r diffyg cynnydd yn y datganiad gwleidyddol a diffyg eglurder, sy'n peri pryder [...] Yn hytrach nag ystrydebau o dan benawdau pwnc, gyda'r nesaf peth i ddim ar faterion allweddol fel mudo yn y dyfodol a chymryd rhan mewn rhaglenni fel Horizon neu Erasmus +, mae angen i'r datganiad gwleidyddol fod yn seiliedig ar ymrwymiad cadarn a chytûn gan y DU a 27 gwlad yr UE i berthynas yn y dyfodol sy'n seiliedig ar fod yn rhan hirdymor mewn undeb tollau a'r farchnad sengl ym mhob sector.

Y diwrnod canlynol, cyfarfu â Phrif Weinidog y DU yn Llundain. Yn ôl **datganiad a gyhoeddwyd yn dilyn y cyfarfod hwnnw**:

> Gwnaethant gytuno ei bod yn flaenoriaeth o hyd i sicrhau cytundeb terfynol a fydd yn cynnig sicrwydd a sefydlogrwydd i bobl a busnesau ar draws yr holl DU, gan gynnwys Cymru.

Ar 26 Tachwedd, yn ystod cyfarfod y Pwyllgor MADY, **dywedodd** Mark Drakeford fod rhai agweddau cadarnhaol i'w cael yn y Cytundeb Ymadael megis y trefniant ar gyfer tollau. Fodd bynnag, dywedodd:

> It very specifically falls short of the Welsh Government's ambitions in relation to the way that it treats rights that Welsh citizens enjoy through our membership of the European Union—consumer rights, environmental rights, workers' rights and so on. A non-regression clause, which is what the withdrawal agreement has, is not satisfactory.

Wrth drafod y datganiad gwleidyddol, ategodd Mark Drakeford alwad Carwyn Jones am undeb tollau sy'n barhaol a dros y tymor hir, gan roi llais i'r DU. Aeth ymlaen i ddweud nad yw'r datganiad gwleidyddol yn datrys problemau, ond ei fod yn hytrach yn eu rhoi ar 'restr ddymuno ar gyfer y dyfodol'.

Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **dadansoddiad economaidd o gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE.** Mae'r dadansoddiad yn pwysleisio bod unrhyw ragfynegiadau yn bell o fod yn sicr. Y prif gasgliadau **yn y tymor byr/canolig** yw:

- Mae cryn ystod o wahanol senarios posibl, gan y gallai'r effaith ar yr economi adlewyrchu camau eithriadol gan brynwyr a busnesau yn ogystal â digwyddiadau gwleidyddol anrhagweladwy. Gallai hefyd ddibynnu ar natur a graddau unrhyw fesurau lliniaru a gymerir gan Lywodraeth y DU.
- Mae Banc Lloegr wedi dweud mai'r sefyllfa waethaf posibl fyddai senario â Chynnyrch Domestig Gros rhwng 7¾ y cant a 10 y cant yn is nag ydoedd ym mis Mai 2016 erbyn diwedd 2023. Byddai hyn yn leihad mwy nag a gafwyd pan ddechreuodd y dirwasgiad yn 2008.

- Ar y llaw arall, mewn senario lle byddai partneriaeth economaidd agos rhwng y DU a'r UE (gan gynnwys trefniadau cynhwysfawr am fasnach rhydd o ran nwyddau a rhai agweddau ar fasnach mewn gwasanaethau ariannol a busnesau) erbyn, gallai Cynnyrch Domestig Gros erbyn 2023 fod 1¾ y cant yn uwch nag a nodwyd yn rhagolygon Adroddiad Chwyddiant mis Tachwedd 2018 (er y byddai hyn yn dal i fod yn is na'r disgwyl ym mis Mawrth 2016, cyn y refferendwm). Gallai partneriaeth sy'n 'llai agos' (yn cynnwys gwiriadau tollau a mwy o rwystrau i fasnachu) arwain at sefyllfa lle bo Cynnyrch Domestig Gros ¾ y cant yn is na'r rhagolygon.

**Yn y tymor hir**:

- Byddai unrhyw fanteision economaidd a fyddai'n deillio o drefniadau masnachu a wneir yn bosibl o dan y Papur Gwyn neu o dan senario 'dim bargen' yn 'fach iawn' o gymharu â'r anfanteision a ddaw yn sgil ymadael â'r UE. Mae hyn, yn naturiol, o ganlyniad i'r pellter daearyddol rhwng y DU a gwledydd y byddai'n gwneud trefniadau masnach newydd â hwy.
- Yn ôl dadansoddiad Llywodraeth y DU o'r effaith economaidd ar wledydd a rhanbarthau'r DU, gallai Cymru wynebu effaith fymryn yn llai na'r DU gyfan. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn na ddylid rhoi llawer o ystyriaeth i hyn oherwydd bod y gwahaniaeth mor fach a'r amgylchiadau mor ansicr.
- Daw dadansoddiad Llywodraeth Cymru i'r casgliad ei bod yn debygol y bydd yr effeithiau negyddol ar Gymru yn debyg i'r effeithiau ar y DU gyfan.

Yn ystod **dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 4 Rhagfyr,** ategodd Mark Drakeford nifer o'r pwyntiau a wnaed uchod, gan nodi bod tair ffordd nad oedd y Cytundeb Ymadael yn diwallu anghenion Cymru, sef:

- Ymrwymiad i gynnal yr un safonau amgylcheddol a llafur yn unig, yn hytrach na chytuno i alinio â gwelliannau a safonau yn yr UE.
- Nad yw'n ymdrin â materion sy'n wynebu'r sector gwasanaethau, sef y rhan fwyaf sylweddol o economi Cymru ac economi'r DU, ac nad yw'n gwarantu na fydd cyfyngiadau sylweddol ar fynediad y DU at farchnad yr UE.
- Gall dyluniad yr ateb wrth gefn mewn perthynas â Gogledd Iwerddon fod yn andwyol i Gymru oherwydd y ffin reoleiddiol ym Môr Iwerddon.

Roedd hefyd yn arbennig o feirniadol o'r diffyg manylion sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad Gwleidyddol, ac meddai:





> Pa fath o sicrwydd y mae datganiad gwleidyddol yn ei roi i gyflogwyr Cymru a gweithwyr Cymru, yn enwedig y rhai mewn diwydiannau sy'n ddibynnol ar gadwyni cyflenwi amser-benodol neu y mae eu model busnes yn seiliedig ar gynnwys gwasanaethau yn eu pecyn cynnig, bod, ar ddiwedd y cyfnod pontio, eu buddsoddiad a'u swyddi'n ddiogel.
>
> Llywydd, os oes gan y cytundeb ymadael ddiffygion difrifol, byddai angen ailysgrifennu'r datganiad gwleidyddol ar raddfa eang pe byddem ni fel Llywodraeth yn ystyried cefnogi ei gymeradwyo.

Ar 12 Rhagfyr, sef y diwrnod y daeth yn Brif Weinidog Cymru, **dywedodd Mark Drakeford** y dylai Prif Weinidog y DU ymestyn Erthygl 50, a galw Etholiad Cyffredinol.